# 177. Un Bore yn yr Orsaf

## gan Thomas Cherry-Gunning

Ioan – ffrind i Johnny, chwarae pêl droed

Johnny – ffrind i Ioan, natur i-ffwrdd-â-hi

Erin – disgybl sy'n teithio i'w harholiad Bioleg a Chemeg

Rich – bachgen 'nerdy', ar y ffôn i'w fam-gu

Natalie – bwli'r ysgol, meddwl yn fawr o'i hun

*Daw Ioan a Johnny i mewn (Johnny o'r chwith a Ioan o'r dde). Maen nhw'n cyrraedd canol y llwyfan ac yn ysgwyd dwylo mewn ffordd unigryw iddyn nhw. Maent yn aros am drên.*

Johnny: Alreit, Io?

Ioan: Dwi'n iawn, diolch. *(Mae'n anadlu'n ddwfn ac yn rhwbio'i wyneb.)*

Johnny: Gwyliaist ti'r gêm neithiwr?

Ioan: Do, boenus nag oedd e?

Johnny: Ro'n i'n meddwl bod gan yr ysgol siawns, ond byddai clowns yn y syrcas yn fwy trefnus!

*Ysgwyd pennau yn methu credu'r peth. Mae Erin a Rich yn dod i'r llwyfan; mae Erin ar ei ffôn; mae Rich yn siarad ar y ffôn yn dawel i'w fam-gu – mae'n fachgen sy'n ei chael hi'n anodd cymdeithasu*

Ioan: Efallai bydd hwnna'n newid tymor nesa.

Johnny: O ie?

Ioan: Mae gen i dreial pêl droed heddiw.

Johnny: O cŵl!

Ioan: Os dwi'n lwcus, efallai bydd Mr Jenkins yn fy newis i i gynrychioli'r ysgol.

Johnny: Gret! Siŵr byddi di'n wych.

*Mae'r trên cyntaf yn cyrraedd y platfform.*

*Ioan:* Ah dyma'r tren!

*Johnny:* Mae'n edrych yn orlawn!

*Mae pawb yn ceisio mynd ar y trên ar yr un pryd ac yn brwydro yn erbyn ei gilydd.*

Ioan: O, c'mon. Gadewch fi mlaen!

Erin: A pam dylen ni adael i ti fynd ar y trên, Mistar Pwysig?

Ioan: Mae gen i dreial pêl droed mawr heddiw. Dwi eisiau cynrychioli'r ysgol tymor nesa *(gan wthio'i frest mas fel aderyn balch).*

Erin: *(Yn rhowlio'i llygaid)* Ych, bechgyn a'u gemau.

Ioan: Ey? A beth sy'n bod â hynny?

Erin: *(Yn codi ei hysgwyddau.)* Beth os oedd gan dy ffrind rywbeth pwysig heddiw hefyd?

Ioan: *(Yn edrych ar Johnny yn syn)* Be? Fe!?

Johnny: *(Yn sydyn)* Oi! Mae gen i freuddwydion mawr.

Ioan: *(Gan chwerthin)* O ie? Pa freuddwydion yw hynny?

Johnny: Gwylio ffilmiau os bydd fy athrawon yn sâl … *(yn chwerthin)*

Ioan: *(Yn ymuno â'r chwerthin.)*

Erin: *(Yn rhoi ei hwyneb yn ei dwylo ac yn ysgwyd ei phen.)*

Ioan: Ocê te. *(Yn siarad ag Erin)* Beth amdanat ti?

Erin: Mae gen i arholiad Bioleg a Chemeg heddiw. Dwi am fod yn ddoctor.

Ioan: *(Yn wawdlyd)* Wwww. *(I Rich)* A beth sydd gen ti?

*Mae Rich yn cario mlaen i siarad â'i fam-gu ar y ffôn yn dawel, gan syllu draw ar y grŵp yn ansicr bob hyn a hyn.*

Ioan ac Erin: *(Yn ddiamynedd)* Wel!?

Rich: *(Yn neidio dan ofn)* Ymm, ymm, ymm…'rhoswch eiliad mam-gu. Wel…ymm…

Ioan: Dere. Bydd y trên yn gadael mewn munud.

Rich: *(I'w fam-gu)* Ydw, Mam-gu. (I'r grŵp) Dwi erioed wedi bod yn hwyr i'r ysgol. Presenoldeb cant y cant. Dwi'n gw'bod. 'Ych chi mor browd ohona i…

Erin: Beth wnawn ni nawr?

Ioan: Bydd rhaid i ni fflipio ceiniog. *(Pawb yn chwilio am geiniog yn eu pocedi).*

Erin: Sdim arian 'da fi.

Johnny: Rock, paper, scissors? *(Mae Ioan yn wfftio'r syniad hwnnw drwy chwifio'i law).*

Ioan: Neu ofynnwn ni i fam-gu hwn *(yn cyfeirio at Rich)*.

Rich: *(Yn ymbil yn dawel arnyn nhw i beidio â chynnwys ei mam-gu yn hyn oll.)*

Johnny: *(Yn edrych tua'r chwith)* Well i ni benderfynu'n glou. Mae'r condyctor yn colli ei amynedd.

*Mae pawb yn syllu ar Ioan.*

Ioan: Sori, ond mae'n rhaid i fi gynrychioli'r ysgol.

*Wrth i Ioan gamu mlaen, daw Natalie i'r llwyfan dan redeg. Mae'n gwthio heibio i bawb ac yn camu ar y trên.*

Ioan: Hei! Be’ ti’n neud?

Natalie: *(Yn goedlyd)* Mynd ar y trên.

Ioan: Ond o’n i fod mynd arno fe.

Natalie: Doeddet ti ddim yn edrych fel ’ny. Roedd pawb jyst yn sefyll ’ma fel lemwn.

Ioan: *(Yn gwylltio)* Wwww!

*Ar hynny, mae’r drysau’n cau ac mae’r trên yn gadael gyda Natalie arno fe. Mae pawb yn syllu ar Ioan yn ddig.*

Ioan: Be’!?

Saib annifyr.

Erin: Drychwch ma un arall yn dod nawr!

*Pawb yn edrych ar y tren yn cyrraedd yr orsaf sydd yn orlawn eto*

Erin: Mae e’n edrych yn orlawn eto! (a*t Ioan)* Dere te! Nage ti oedd yn marw eisiau mynd ar y trên? Cer ti a lle ni gyd eto!

*Mae Ioan yn parhau i simsanu, gan edrych ar Johnny am gefnogaeth.*

Johnny: *(Yn codi ei ysgwyddau)* Ti wnaeth penderfynu camu ar y tren o flaen pawb arall tro diwethaf!

Ioan: Johnny!

Johnny: Be’?

Ioan: *(Saib)* O, iawn, iawn *(yn ochneidio)* Sori. *(I Erin)* Gei di fynd arno…

Erin: *(Methu credu’r peth)* Wir?

Ioan: Mae gen ti arholiad pwysig. Wna i aros tan y trên nesa.

Erin: *(Yn hanner gwenu)* Diolch yn fawr. *(Mae’n camu ar y trên ac i ffwrdd â hi.)*

*Mae yna saib fer wrth iddyn nhw ddisgwyl y trên nesaf. Maen nhw’n edrych ar eu watshys ac yn edrych lan tua’r hysbysfwrdd uwchben y platfform.*

Johnny: Nest ti’r peth iawn.

Ioan: Diolch. Oedd ganddi reswm da, yn dyfe.

Johnny: Yn union. Bydd hi’n cofio hynny.

Ioan: Ie, ie.

Johnny: Bydd y trên nesaf yn cyrraedd yn y man.

Ioan: Ie. (*Yn cael cip sydyn ar yr hysbysfwrdd uwchben y platform eto)* Ie, unrhyw—Beth!?

Johnny: Beth? Beth sy’n bod?

Rich: Na, na. Ydy, popeth yn iawn, Mam-gu.

Ioan: Iawn? Na, dyw e ddim yn iawn!

Johnny: Beth, Io? Beth sy'?

Ioan: Mae'r trên nesaf wedi'i ganslo!

*Mae Johnny a Rich yn edrych ar yr hysbysfwrdd, gan ochneidio'n siomedig.*

Johnny: *(Yn siomedig)* Hwyl fawr ffilmiau diwedd tymor!

Ioan: Ffilmiau diwedd tymor! Beth am fy siawns o gynrychioli'r ysgol?

Rich: Na, mae popeth yn iawn, Mam-gu. Dim ond rhywun yn bod yn ddramatig yn yr orsaf.

Ioan: *(Gan syllu ar Rich)* Reit, dyna fe. Ga i lifft gyda tad-cu. *(Mae'n gadael i'r dde, ac yn ei hast i adael mae Ioan yn bwrw yn erbyn Rich.)*

Rich: Oi!

Ioan: Joia aros!

*Mae Ioan yn rhuthro i ffwrdd. Mae Johnny yn chwifio hwyl fawr wedi'i syfrdanu gan dymer Ioan.*

Rich: *(Mae Rich yn troi i edrych ar Johnny)* Oedd wir eisiau hwnna, dwed?

Johnny: *(Gan ysgwyd ei ben a rhoi ei law ar ysgwydd Rich)* Nac oedd, Rich…nac oedd.

*Ar ôl ychydig eiliadau, mae trên yn cyrraedd yr orsaf.*

Johnny: O 'drychwch, dyma drên arall nawr. A haleliwia, mae'n wag! *(Gan droi at Rich)* Ar dy ôl di.

*Mae Rich a Johnny yn camu ar y trên ac yn gadael.*
*Yna, mae Ioan yn rhuthro nôl i'r llwyfan yn fyr ei wynt.*

Ioan: Arhoswch i fi! Hei! Arhosw… *(Mae'n arafu cyn plygu a rhoi ei ddwylo ar ei bengliniau.)* Ych, bydd Mr Jenkins byth yn fy newis i nawr. *(Troi nôl a gadael gan ysgwyd ei ben yn siomedig.)*

DIWEDD